

## Llong gyflymaf y byd

**Pa fath o long yw hi?**

Fferi neu 'cat' yw hi.

**Pa mor gyflym mae hi'n gallu teithio?**

Mae hi'n gallu teithio tua 67 milltir yr awr.

**Ble cafodd hi ei hadeiladu?**

Cafodd hi ei hadeiladu ar ynys Tasmania, Awstralia.



**Beth sy'n gyrru'r llong?**

Dau dyrbin nwy sy'n gyrru'r llong. Maen nhw'n debyg i'r rhai sydd mewn injan awyren.

**Pa mor hir yw'r llong?**

Mae hi'n 99 metr o hyd.

**Beth yw enw'r llong?**

Enw'r llong yw Francisco, ar ôl y Pab Francis.

**Ble bydd y llong yn teithio?**

Bydd y llong yn teithio rhwng Buenos Aires yn yr Ariannin a Montevideo, yn Uruguay. Mae'r Pab Francis yn dod o Buenos Aires yn wreiddiol.



## Pa mor hir yw'r daith?

Mae'r daith yn 140 milltir ar draws ceg afon Plate.

## Ydy'r daith yn anodd?

Nac ydy. Mewn llong 'cat' fel hon, mae teithio ar y môr yn gallu bod yn anodd. Ond ar draws ceg yr afon, mae'r daith yn hwylus iawn.

## Oes llongau cyflymach na hon yn y byd?

Mae cychod cyflymach, ond dim llongau cyflymach. Mae cychod modur yn gallu teithio'n gyflym iawn, dros 100 milltir yr awr yn hawdd. Ond mae'r llong hon yn gallu cario 150 o geir, a 1,000 o deithwyr.

Gallwch weld pa mor gyflym mae'r fferi'n teithio drwy edrych ar wefan

YouTube:<http://www.youtube.com/watch?v=bQrtvI9E62c>

## Y corff yn tyfu

## **Pa mor gyflym mae pobl yn tyfu?**

Rydyn ni'n tyfu ar gyflymdra gwahanol yn ystod ein bywydau.

## **Cyfnod cario - 40 wythnos cyn cael ein geni**

Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni yn y groth ac yn tyfu'n gyflym iawn.

## **Babandod - ar ôl cael ein geni hyd at 2 flwydd oed**

Rydyn ni'n tyfu'n gyflym yn ystod y cyfnod hwn ac yn dibynnu'n llwyr ar bobl eraill i ofalu amdanon ni. Pan fyddwn ni'n cael ein geni, mae ein pen yn fawr a'n coesau'n gymharol fyr.

## **Plentyndod - rhwng 3 a 10 oed**

Yn ystod ein plentyndod, rydyn ni'n tyfu'n gyson, o ran ein corff a'n meddwl. Rydyn ni'n dechrau dod yn annibynnol. Yn ystod ein plentyndod, mae ein corff yn tyfu'n gyflymach na'r pen.

## **Glaslencyndod - rhwng 11 a 17 oed**

Rydyn ni'n tyfu'n gyflym iawn yn ystod y cyfnod hwn, gyda rhai'n mynd yn dal yn sydyn iawn. Mae ein meddwl yn datblygu'n fawr hefyd ac rydyn ni'n dod yn fwyfwy annibynnol.

## **Oedolaeth - rhwng 18 a 65 oed**

Dydyn ni ddim yn mynd yn dalach pan fyddwn ni'n oedolion. Dyma'r cyfnod pan fyddwn ni ar ein cryfaf ac yn hollol annibynnol.

## **Henaint - ar ôl 65 oed**

Yn raddol, wrth inni heneiddio, rydyn ni'n mynd yn fwyfwy dibynnol ar bobl eraill wrth i'r corff ddirywio.

## **Elfyn Evans**

Elfyn Evans yw un o'r bobl gyflymaf yng Nghymru. Mae'n raliô ac yn 2014, bydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Raliô'r Byd.

## Ffeil ffeithiau Elfyn Evans



**Enw:** Elfyn Evans

**Dyddiad geni:** 28 Rhagfyr 1988

**Byw:** Dolgellau

**Gwaith:** Rheolwr Gweithdy  
Garej

**Car:** Ford Fiesta R5

**Diddordebau:** Beicio mynydd,  
cadw'n heini, Motorcross

Ceir yn y teulu





Roedd Gwyndaf Evans, tad Elfyn, yn enwog am yrru ceir raliio ym Mhencampwriaeth y Byd WRC.

Roedd gan hen daid Elfyn garej yn Ninas Mawddwy. Nawr mae'r garej yn Nolgellau, gyda'r enw 'Gwyndaf Evans Motors'. Maen nhw'n gwerthu ceir Ford a Suzuki.

### **Gyrfa Elfyn**

Mae Elfyn wedi bod yn ennill raliau ers 2006. Mae wedi bod yn Bencampwr Fiesta Sporting Trophy sawl gwaith. Yn 2012, enillodd gystadleuaeth Academi WRC. Yn 2013, cafodd gyfle i gystadlu yn rhai o rowndiau pencampwriaeth WRC 2.

### **Ennill yng Nghymru**

Pan oedd Rali Prydain Fawr yng ngogledd Cymru ym mis Tachwedd 2013, Gwyndaf enillodd gystadleuaeth WRC 2. Roedd hyn yn dipyn o gamp. Meddai Elfyn wrth wefan WRC:

"Roeddwn i'n awchu am ennill. Dwi wrth fy modd ar ôl ennill Rali Cymru. Roedd rhaid canolbwyntio a pheidio â gwneud camgymeriadau. Roedd y tywydd yn eitha da - dim niwl na llawer o law chwaith. Roedd hi'n wych gweld cymaint o bobl yn gwyllo'r rali yn y coedwigoedd."



## Y dyfodol i Elfyn Evans

Bydd Elfyn Evans yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Ralio'r Byd yn 2014. Fe fydd ail yrrwr tîm M-Sport, y tu ôl i Mikko Hirvonen o'r Ffindir.

Os ydych chi'n hoffi ralio, beth am edrych ar wefan y rhaglen Ralio+ sydd ar S4C?<http://www.ralio.co.uk/>



## Bloodhound SSC



Car Uwchsonig Bloodhound SSC



Gall pawb fod yn berchen ar y Bloodhound!



## Injan y Bloodhound SSC

Beth yw hwn? Car neu roced? Ychydig o'r ddau, mae'n debyg!

Mae car uwchsonig Bloodhound SSC yn gobeithio cyrraedd cyflymder o 1000 mya ar y tir yn ystod 2014, a chreu Record Byd am Deithio ar y Tir. Mae injan jet Rolls-Royce ynddo, a roced arbennig i wthio'r car hyd at 1,000 mya (1,600 kya neu Mach 1.4). Mae'r prosiect yn debygol o gostio tua £6.6m o bunnoedd.

## Bloodhound SSC a Phrifysgol Abertawe

Ar hyn o bryd, car uwchsonig Thrust sydd â'r record hon (763 milltir yr awr). Costiodd y prosiect hwnnw £2.8m. Coleg Peirianeg Prifysgol Abertawe ddyluniodd Thrust, ac mae'r staff yno'n cydweithio ar brosiect Bloodhound hefyd. Maen nhw wedi bod yn gwneud ymchwil i weld pa fath o siâp sydd orau er mwyn gwneud i'r car deithio mor gyflym ag sy'n bosib.

Dyma rai o'r pethau maen nhw wedi bod yn edrych arny'n nhw:

- siâp trwyn y car
- siâp a maint yr adain
- siâp mewnlif yr injan

Mae'r car wedi bod yn cael ei adeiladu ym Mryste ac yn ystod 2014, bydd yn cael ei brofi yn Ne Affrica. Cafodd trac 12 milltir o hyd, 2 filltir o led ei glirio yn Hakskeen Pan ar gyfer hyn.

## Pa mor gyflym yw 1,000 mya?

- 150 metr ar amrantiad
- Hyd pedwar a hanner cae pêl droed mewn 1 eiliad



## **Pwy fydd yn gyrru'r Bloodhound?**

Asgell-gomander Andy Green fydd yn gyrru'r Bloodhound. Bydd yn gorwedd a'i draed yn wynebu'r blaen. Wrth i'r car gyflymu o 0 i 1,000 mya mewn 42 eiliad, bydd yn teimlo grym ddwywaith a hanner pwysau ei gorff (2.5g) a bydd gwaed yn rhuthro i'w ben.

## **Sut bydd y car yn arafu?**

Er mwyn arafu'r car, bydd Andy Green yn gwasgu'r brecciau awyr pan fydd y car yn mynd ar 800 mya. Yna, ar 600 mya bydd parasitwiau'n dod allan. Bydd yn gwasgu brecciau disg ar 200 mya.

## **Beth fydd effaith hyn ar y gyrrwr?**

Bydd Andy Green yn teimlo grym dair gwaith pwysau ei gorff (3g) wrth i'r Bloodhound arafu. Mae wedi bod yn ymarfer gyrru awyren ysgafn ben i waered er mwyn dod yn gyfarwydd â'r teimlad o gael gwaed yn rhuthro i'w ben.

## **Gwallt ac ewinedd**

### **Pa mor gyflym mae'r gwallt a'r ewinedd yn tyfu?**

#### **Gwallt**

Ar gyfartaledd, mae gwallt pobl yn tyfu 1.25 centimetr y mis, sydd tua 15 centimetr y flwyddyn. Mae'n dibynnu ar sawl peth, er enghraifft, eich oed, a pha mor iach ydych chi. Y gwallt ar gorun eich pen sy'n tyfu gyflymaf.



## Ewinedd


Dyma rai ffeithiau diddorol am ewinedd:

- Mae ewinedd oedolion yn tyfu tua 3mm y mis.
- Mae ewinedd plant yn tyfu'n llawer cynt nag ewinedd oedolion.
- Pan fyddwch chi yn eich ardegau, mae ewinedd yn tyfu 50% yn arafach nag oedden nhw pan oeddech chi'n blentyn.
- Mae ewinedd bysedd yn tyfu tair i bedair gwaith yn gynt nag ewinedd traed.
- Mae ewinedd y llaw rydych chi'n ei defnyddio fwyaf yn tyfu'n gynt nag ewinedd y llaw arall.
- Mae ewinedd bysedd yn tyfu'n gynt yn yr haf na'r gaeaf, ond dydy'r gwyddonwyr ddim yn gwybod pam.
- Gall gymryd blwyddyn a hanner i ewinedd traed dyfu o'r bôn i'r brig, ac mae'n cymryd pedwar i chwe mis i ewinedd bysedd wneud yr un peth.

Sut mae cael eich ewinedd i dyfu'n gynt

- Os yw eich gwaed yn cylchredeg yn dda yn eich dwylo, bydd eich ewinedd yn tyfu'n gynt. Felly, ewch allan i ymarfer, neu curwch eich dwylo pan fydd eich tîm rygbi neu bêl-droed yn gwneud yn dda.
- Gwisgwch fenig os yw hi'n oer y tu allan. Bydd hyn yn gwarchod eich ewinedd.
- Mae ychydig o haul yn yr hydref a'r gaeaf yn helpu eich corff i greu fitamin D. Dyma'r fitamin sydd ei angen ar eich ewinedd y dyfu'n gyflym. Mae fitamin D mewn llaeth hefyd.
- Bwytewch ddigon o brotein. Mae eich ewinedd wedi eu gwneud o brotein, felly cofiwch fwyta cyw iâr, pysgod, cig eidion, wyau, cnau a llysiau sy'n cynnwys protein i gadw eich ewinedd yn iach.

## Ras geffylau



*Dyma ddarn allan o Y Ffordd Beryglus gan T. Llew Jones sy'n disgrifio ras geffylau ar y dolydd gleision ar lan afon Teifi, y tu allan i Lanbedr Pont Steffan.*

*Y ddau geffyl pwysig yn y ras yw:*

*Dart - Perchennog: Syr Harri; Joci: Twm Siôn Cati*

*Biwti - Perchennog: Syr Tomos, Ffynnon Bedr; Joci: Robert (mab Syr Tomos)*

*Roedd perchennog Dart, Syr Harri, wedi mentro can punt y byddai Twm a Dart yn ennill y ras, felly roedd cryn dipyn o bwysau arnyn nhw.*

*Wrth inni ymuno â'r ras, mae Biwti a Dart wedi carlamu i'r blaen.*



Erbyn hyn nid oedd ond y ddwy gaseg yn y ras, a Biwti oedd ar y blaen, ond yr oedd Twm Siôn Cati'n marchogaeth o hydâ ffrwyn dynn. Gwyddai fod un arall o'r ceffylau wedi cwmpo, a gwyddai hefyd mai'r peth hawsa'n y byd fyddai i Dart lithro ar ei throed, neu godi at y clawdd yn rhy hwyr, neu'n rhy gynnar, acfe fyddai ar ben arno yntau. Fe geisiodd fesur y pellter rhyngddo ef a chaseg Syr Tomos. A oedd mwy na chanllath rhyngddynt? Llaciodd y mymryn lleia' ar y ffrwyn.

Erbyn hyn nid oedd ond tri chlawdd ar ôl, a'r eiliad nesaf cododd un o'r rheini o'i flaen. Gwelodd Biwti'nmynd drosto fel aderyn. Yna yr oedd yntau'n codi drwy'r awyr ac yn disgyn y tu draw ar dir gwastad.

Nid oedd y gaseg ddu'n hoffi'r ffrwyn dynn. Gwyddai Twm ei bod yn dyheu am gael ei phen, ondni feiddiaiaael iddi fynd cyn cyrraedd y ddôl islaw Llanfair.

Aeth clawdd arall heibio oddi tano, a daeth y ddôl i'r golwg o'i flaen.

Rhoddodd ei phen i'r gaseg yn awr a llamodd hithau ymlaen ar ôl Biwti. Teimlodd Twm ryw ias yn mynd drwyddo wrth weld ei chyflymder. Pwysai ymlaen i dorri'r gwynt a theimlai fod y gaseg ac yntau'n un. Bron na allai dyngu fod ei galon ef a'i chalon hithau'n curo'r un pryd.

Edrychodd o'i flaen. A oeddynt yn nes at Robert a Biwti?

Oeddynt! Roedd Twm yn siŵr fod y bwlch rhyngddynt yn dechrau cau. Cariai Twm chwip yn ei law, ond nid oedd yn bwriadu ei defnyddio nes byddai rhaid.

Ond ar yr un pryd yr oedd yn dyheu am i'r gaseg fynd yn gynt eto. Fel pe bai'n gallu darllen ei feddwl, gwnaeth hithau fwy o ymdrech fyth. Yn raddol fe gaeodd y bwlch rhwng y ddau farchog, a chyn bo hir marchogai Twm wrth ysgwydd Robert Ffynnon Bedr. Yna daethant at y clawdd olaf. Aeth y ddau drosto'n llwyddiannus ond enillodd Robert beth tir serch hynny, gan fod ei gaseg ef wedi cael mwy o brofiad o neidio.

Yn awr nid oedd ond tir gwastad rhyngddynt a'r llinell. Taflodd Robert un gip dros ei ysgwydd a gwelodd fod y gaseg ddu yn y ei ymyl. Cododd ei chwip a'i defnyddio am y tro cyntaf. Ond ni wnaeth hynny ddim gwahaniaeth gan fod y gasegar ei heithafcyn hynny.

"Dart! Dart!" gwaeddodd Twm, ac o rywle casglodd y gaseg ddigon o nerth i basio Robert a Biwti. Edrychodd Robert yn syn arni'n mynd heibio, a chododd ei chwipdrachefn a thrachefn. Ond yr oedd hi wedi bod yn ras galed ac anodd, yn ddigon i ladd ceffyl cyffredin, ac yn awr, a phen y daith yn ymyl, yr oedd gwaed yn dechrau dweud. Mewn gair, yr oedd Biwti Ffynnon Bedr wedi chwythu ei phlwc.

Rywfodd neu'i gilydd gwyddai Twm Siôn Cati fod hynny'n wir. Gwyddai hefyd, cyn wired â'r pader, fod y ras wedi'i hennill. Cododd ei ben a gwelodd y dyrfa fawr o'i flaen yn chwifio'u breichiau, er na allai glywed dim o'u sŵn. Daeth y llinell yn nes ac yn nes. Un cip dros ei ysgwydd. Yr oedd Biwti'n dal ati o hyd, y creadur dewr â hi.

Yna gwelodd wyneb coch tafarnwr y Bedol yn mynd heibio a gwyddai fod y ras wedi ei hennill a chanpunt Syr Harri'n ddiogel.

## Trên cyflymaf y byd

Trên cyflymaf y byd

Maglev Shanghai

Arwydd yn y trên yn dangos ei gyflymdra



Maglev Shanghai yw'r trên cyflymaf yn y byd. Wrth deithio rhwng cyrion Shanghai a maes awyr Pudong, mae'n mynd 430km yr awr ar ei gyflymaf. Dechreuodd y trên gario teithwyr ym mis Ebrill 2004.

Ystyr Maglev

Enw 'Maglev' yn llawn yw 'Magnetic levitation'. Ystyr hyn yw bod y trenau'n hofran dros llwybr (gweler y llun) gan ddefnyddio egwyddorion magnetau yn lle'r hen reilffyrdd gyda'r trac ac olwynion dur.

Mae tri pheth yn gwneud i drenau maglev weithio:

- 1) Pŵer trydan allanol
- 2) Coiliau metel ar hyd llwybr neu drac
- 3) Magnetau mawr sy'n sownd wrth waelod y trên

Y gwahaniaeth mawr rhwng trên maglev a thrên arferol yw nad oes injan gan drenau maglev. O leiaf, nid injan fel sydd mewn trenau sy'n tynnu cerbydau ar hyd rheilffordd ddr. Mae'r trên yn hofran rhwng 1 a 10 cm uwchben y llwybr. Pan fydd y trên yn hofran, mae

pŵer trydan yn cael ei roi yn y coiliau yn waliau'r llwybr. Mae hyn yn creu maes magnetig, a hwn sy'n tynnu ac yn gwthio'r trê'n ar hyd y llwybr.

Mae trenau maglev yn hofran ar glustog o aer, felly does dim ffrithiant. Oherwydd hyn, a bod y trenau wedi cael eu dylunio i fod yn aerodynamig, maen nhw'n gallu teithio'n gynt nag unrhyw beth arall ar y tir - dros 500 km yr awr.

Yn y pen draw, mae'r datblygwyr yn dweud y bydd trenau maglev yn gallu cysylltu dinasoedd sydd hyd at 1,000 milltir oddi wrth ei gilydd. Ar 500km yr awr, gallech chi deithio o Baris i Rufain mewn ychydig dros ddwy awr. Ar hyn o bryd, mae'r daith yn cymryd tua 10 awr. Yr Almaen a Siapan yw'r gwledydd sy'n datblygu trenau maglev ar hyn o bryd.

Dyma sylwadau un teithiwr ar drên maglev:

"Wrth deithio yn y trê'n, rydych chi'n bendant yn sylweddoli eich bod chi'n mynd fel y gwynt. Mae rhyw deimlad rhyfedd yn eich clustiau, rhywbeth tebyg i'r teimlad sydd wrth godi mewn awyren neu fynd mewn liff't."

## Faint yn gynt y gall pobl redeg?

Faint yn gynt y gall pobl redeg?

Usain Bolt yn rhedeg



'Mellten' Usain Bolt





Yn ôl Mark Denny, bioegydd o Brifysgol Stanford, UDA, fydd dynion byth yn gallu rhedeg ras 100 metr yn gynt na 9.48 eiliad. Mae hyn tua 0.10 eiliad yn gynt na record byd Usain Bolt ar hyn o bryd.

Mae astudiaeth Mark Denny'n dangos bod pobl wedi bod yn rhedeg yn gynt drwy'r 1900au ond bod y cynnydd yn arafu ac y bydd yn dod i stop.

"Mae'r un peth wedi bod yn wir am anifeiliaid fel cŵn a cheffylau - y rhai rydyn ni'n ceisio eu bridio i redeg yn gynt ac yn gynt. Dyw cŵn ddim yn rhedeg yn gynt ers tua 1970. Felly, mae'n rhaid bod gan bobl derfynau hefyd."

Gallai gwyddoniaeth a thechnoleg newid pa mor gyflym mae pobl yn gallu rhedeg. Er enghraifft, gallai athletwyr gymryd hormonau i newid eu cyhyrau fel eu bod yn fwy effeithiol. Rydyn ni i gyd wedi clywed am bobl ym myd y campau sydd wedi cymryd cyffuriau i wella eu perfformiad.

"Mae'n gwestiwn cymhleth iawn," meddai Denny. "Mae pob math o bethau'n bosib er mwyn gwella perfformiad - cymryd cyffuriau, technoleg arbennig ac ati. Mae'r ffordd y mae esgidiau rhedeg yn cael eu dylunio'n gallu cael effaith, hyd yn oed."



Annwyl Olygydd Campau Heddiw,

Hoffwn fynegi fy siom am yr holl dwyllo sy'n digwydd ym myd y campau'r dyddiau hyn. Mae'n anodd credu bod unrhyw athletwr, nofiwr neu feiciwr sy'n gwbl 'lân' a heb gymryd unrhyw gyffur i wella ei berfformiad.

Rwy'n ddigon hen i gofio'r 1970au, pan oedd athletwyr o'r Undeb Sofietaidd a Dwyrain yr Almaen yn cymryd cyffuriau fel testosteron i wella eu perfformiad. Roedd y menywod yn edrych yn debycach i ddynion, yn gyhyrau i gyd! Roedd hi'n amlwg i bawb fod rhywbeth mawr o'i le. Ond ar y pryd, nid oedd y system brofi'n ddigon trylwyr i ddangos bod twyllo'n digwydd. Dim ond wedyn y daeth hi'n bosib profi hynny go iawn.

Mae'n rhaid bod yr un peth yn wir heddiw – hynny yw, fod pobl y campau 'un cam ar y blaen' i'r system brofi. Mae'n siŵr y bydd y samplau sy'n cael eu cymryd heddiw'n cael eu profi eto ymhen rhai blynyddoedd a byddwn ni'n gweld bod mwy o dwyllo nag rydyn ni'n ymwybodol ohono ar hyn o bryd. Mae cymaint o bwysau i ennill fel bod rhai pobl yn fodlon mentro popeth – eu hiechyd a'u henw da yn y tymor hir – er mwyn ennill clod, bri ac arian yn y tymor byr.

Yn gywir iawn,

Olwen Morris

## Camerâu cyflymder

### Camerâu cyflymder

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi cael ei ddal gan gamera cyflymder? Mae'n debyg eich bod chi, gan fod dros filiwn a hanner o yrwyr yn cael eu dal bob blwyddyn.

### Beth yw pwynt camerâu cyflymder?

Maen nhw'n cael eu defnyddio fel bod mwy o gyrwyr yn cadw at derfynau cyflymder. Os yw gyrwyr yn gwneud hyn, mae llai o ddamweiniau'n digwydd, ac os oes damwain, mae llai o bobl yn cael anafiadau difrifol neu'n cael eu lladd.

Er enghraifft, mae'r Gymdeithas Frenhinol dros Atal Damweiniau'n rhoi'r ystadegau hyn:

- Os yw cerddwr yn cael ei fwrw gan gar sy'n gyrru 20 mya, mae ei siawns o ddod drwy'r ddamwain yn 90%.
- Os yw cerddwr yn cael ei fwrw gan gar sy'n gyrru 30 mya, mae ei siawns o ddod drwy'r ddamwain yn 50%.
- Os yw cerddwr yn cael ei fwrw gan gar sy'n gyrru 40 mya, mae ei siawns o ddod drwy'r ddamwain yn 10%.

Mae'n ffaith fod camerâu cyflymder wedi arwain at lai o bobl yn cael eu lladd, a llai o ddamweiniau difrifol ar y ffyrdd.

### Faint o yrwyr sy'n goryrru?

Yn ôl ystadegau'r llywodraeth, mae 58% yn torri'r terfynau cyflymder ar ffyrdd 30 mya. Mae 57% yn torri'r terfyn cyflymder ar draffyrdd (70 mya).

### Pwy sy'n debygol o fod yn goryrru?

Mae'r rhai sy'n debygol o fod yn goryrru'n cynnwys:

- pobl sy'n gyrru fel rhan o'u gwaith
- pobl sy'n dod o gartref ag incwm uchel
- dynion ifanc.

### Ydy pawb o blaid camerâu cyflymder?

Mae tri chwarter y gyrwyr sy'n aelodau o'r AA (cymdeithas foduro) o blaid camerâu cyflymder. Dadl y rhai sydd yn erbyn y camerâu yw eu bod nhw'n cael eu defnyddio i wneud arian yn unig (mae dros £100 miliwn y flwyddyn yn cael ei godi o'r dirwyon). Maen nhw'n honni bod y camerâu'n cael eu rhoi mewn mannau lle nad oes damweiniau'n digwydd, ond lle mae'n anodd i yrwyr gadw at y terfynau cyflymder.